Image not found or type unknown

Arolwg Dweud Eich Dweud

Dweud Eich Dweud yw ein harolwg blynyddol o'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 22 January 2024

Diweddariad olaf: 22 January 2025

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/dweud-eich-dweud am y fersiwn diweddaraf.

Cwblhewch arolwg Dweud Eich Dweud erbyn 7 Mawrth.

Mae arolwg Dweud Eich Dweud 2025 bellach ar agor.

Yr arolwg blynyddol hwn yw eich cyfle i rannu eich profiad o weithio ym maes gofal cymdeithasol gyda ni.

Yn union fel rydyn ni wedi gwneud yn y gorffennol, rydyn ni'n gofyn i chi ateb cwestiynau am bethau fel eich iechyd a'ch llesiant, cyflog ac amodau, a beth rydych chi'n ei hoffi am weithio yn y sector.

Rydyn ni am i gymaint o bobl â phosibl gwblhau'r arolwg byr, ar draws ystod eang o rolau gofal cymdeithasol.

Bydd yr arolwg yn cau ar 7 Mawrth.

Bydd rhoi gwybod beth rydych chi'n ei feddwl yn helpu i siapio'r cymorth rydyn ni a'n partneriaid yn ei gynnig, felly peidiwch â cholli'ch cyfle i ddweud eich dweud.

Bydd pawb sy'n cwblhau'r arolwg yn cael cyfle i gymryd rhan mewn raffl i ennill taleb siopa gwerth £20.

Cwblhewch yr arolwg nawr!

Gweithio gyda phartneriaid

Bydd Buckinghamshire New University, Bath Spa University a Chymdeithas Brydeinig y Gweithwyr Cymdeithasol (BASW) yn gweithio gyda ni i gynnal yr ymchwil hwn.

Bydd eich holl atebion yn ddienw a byddwn ni’n rhannu'r canfyddiadau ar ein gwefan ar ôl dadansoddi'r canlyniadau.

Hyrwyddwch yr arolwg yn eich gweithle

Rydyn ni wedi datblygu ystod o adnoddau i'ch cefnogi chi i hyrwyddo'r arolwg yn eich gweithle.

Beth oedd canlyniadau arolwg 2024?

Dweud Eich Dweud 2024

Darganfyddwch canfyddiadau arolwg 2024.

Dweud Eich Dweud 2023

Darganfyddwch canfyddiadau arolwg 2023.

Rydyn ni hefyd wedi defnyddio'r canfyddiadau i greu gyfres cipolwg sy'n crynhoi ac yn amlygu gwybodaeth allweddol am y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ewch i'n gwefan Grŵp Gwybodaeth i ddarganfod mwy am y canlynol:

- gwella telerau ac amodau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru
- gwerthfawrogi gwaith gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Angen mwy o wybodaeth?

Efallai byddwch chi'n dod o hyd i'r wybodaeth rydych chi'n chwilio am yn ein cwestiynau cyffredin.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach, e-bostiwch SCWsurvey@bathspa.ac.uk.